

Amaethyddiaeth Newyddlen 2020

Rhestr o Gyrsiau

BSc

Amaethyddiaeth
Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid
Amaethyddiaeth gyda Rheoli Busnes

MAG (Meistr Integredig)

Amaethyddiaeth
Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid
Diddordeb? Ffoniwch Hefin Williams ar 01970 621658
neu E-bost: hew05@aber.ac.uk

Gradd Sylfaen

Amaethyddiaeth
Diddordeb? Ffoniwch Penri James ar 01970 621630 neu
E-bost: wpj@aber.ac.uk

IBERS Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig

Cynlluniau Meistr Integredig Newydd yn IBERS

Mae dau gynllun astudio newydd wedi'u lansio yn IBERS eleni, MAG Amaethyddiaeth ac MAG Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid.

Mae ein cynlluniau Integredig Meistr yn cynnig cyfle i fyfyrwyr gyfuno BSc â blwyddyn astudio ychwanegol fel y byddant yn graddio gyda chymhwyster lefel Meistr. Mae'r graddau hyn yn datblygu ehangder a dyfnder gwybodaeth, ac yn paratoi myfyrwyr i fod yn arbenigwyr pwnc sy'n gallu gwneud defnydd effeithiol o'r datblygiadau arloesol o'r radd flaenaf yn y diwydiant amaethyddol a thu hwnt. Gall y cyrsiau hyn hefyd fod yn gam tuag at raddau ymchwil pellach a byddant yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar weithwyr proffesiynol heddiw.

Mae ein graddau Meistr Integredig wedi'u creu'n benodol i ateb y galw cynyddol am bersonél â chymwysterau addas i weithio ar lefel uchel yn y diwydiannau Amaethyddol a Chysylltiedig. Bydd y sgiliau arbenigol pwnc a ddatblygir ar y cwrs hwn yn caniatáu i fyfyrwyr dargedu gyrfaoedd mewn ymgynghori amaethyddol, agronomeg, rheoli fferm, iechyd a maeth da byw a phob rôl gysylltiedig arall.

Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2019

*91% boddhad cyffredinol myfyrwyr
Amaethyddiaeth*

Gyda bodlonrwydd cyffredinol myfyrwyr o 91%, mae Aberystwyth 7 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd y DU o 84%. Yn ogystal, mae Prifysgol Aberystwyth yn parhau ar y brig yng Nghymru am fodlonrwydd cyffredinol myfyrwyr, a hynny am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.



Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ei henwi'n **Brifysgol y Flwyddyn yng Nghymru** ar gyfer 2020 gan The Times / The Sunday Times Good University Guide.

Prosiect Amaethyddiaeth Da Byw manwl gywir yn IBERS

Mae'r prosiect 'PreciseAg' (Precision livestock farming for a sustainable Welsh Agricultural Industry), yn cael eu rhedeg ar y cyd rhwng IBERS a'u partneriaid Addysg Bellach, sef Coleg Cambria yn Llysfasi, gyda chyllid gan y cyngor cyllido (HEFCW) a chefnogaeth gan Cyswllt Ffermio. Mae'r cyflawni gwaith datblygu cynnar a hollbwysig o dechnolegau a modelau a fydd yn fuddiol i systemau cynhyrchu anifeiliaid yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt.

Fe wnaeth y prosiect ddechrau yn 2018 ac mae'n ffocysu ar ffactorau sy'n dylanwadu ar gynhyrchedd ffermydd. Mae'r rhain yn cynnwys gwella strategaethau rheoli parasitiaid; datblygu technolegau i fedru darogan wynna a'r risg o gymhlethdodau o flaen llaw; defnyddio dulliau i asesu mewnbwn bwydo gwartheg godro unigol; a defnyddio synwryddion i asesu iechyd llooi godro.



Ym mis Hydref 2019, cynhaliodd IBERS, ddiwrnod agored ar Fferm Gogerddan, Prifysgol Aberystwyth, i drafod ac arddangos sut y gall Technoleg Amaethyddiaeth Fanwl Gywir gynorthwyo ffermyr i reoli eu ffermydd a gwella hwsmonaeth a lles anifeiliaid. Roedd y diwrnod yn cynnwys cyflwyniadau gan rai o'r staff yma yn IBERS yn trafod gwahanol agweddau'r prosiect PreciseAg a chyflwyniad ar y datblygiadau sy'n digwydd ar Ffermydd y Brifysgol.

Dywedodd Dr Hefin Williams, sef cydlynnydd y cynllun gradd Amaethyddiaeth yn IBERS, ac sy'n arwain y tîm PreciseAg: "Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle gwerthfawr i ni rannu rhai o ganfyddiadau ein prosiect Amaethyddiaeth Da Byw Manwl Gywir i'r diwydiant amaethyddol. Credwn y bydd technoleg fanwl yn chwarae rhan hanfodol wrth ganiatáu i amaethyddiaeth addasu i lawer o heriau yn y dyfodol ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod ffermyr yn ymwybodol o alluoedd y 'technolegau' yma".

BeefQ - Beef Eating Quality

Mae BeefQ yn brosiect ymchwil yn IBERS gyda'r nod o wella ansawdd bwyta cig eidion.

Nod y prosiect BeefQ yw helpu ffermwyr a phroseswyr yng Nghymru i gynhyrchu cig eidion sy'n cwrdd ag anghenion defnyddwyr yn y dyfodol. Mae BeefQ yn gweithio gyda ffermwyr, proseswyr a defnyddwyr, i adeiladu'r gallu i weithredu system asesu ansawdd bwyta yng Nghymru i hybu ansawdd bwyta Cig Eidion Cymru PGI (Dynodiad Daaryddol Gwarchoddedig), ac enillion i ffermwyr.

Hyd yn hyn, mae dros 2000 o garcasau cig eidion gan broseswyr yng Nghymru wedi cael eu graddio gan ddefnyddio model rhagfynegiad bwyta cig Safonau Cig Awstralia, sy'n sail i systemau rhagfynegiad ansawdd bwyta Cymru. Mae samplau o rai o'r carcasau hyn bellach yn cael eu samplu gan 1200 o brofwyr mewn digwyddiadau ledled Cymru i helpu i ddatblygu'r glasbrint gwyddonol ar gyfer cig eidion sydd â nodweddion ansawdd bwyta rhagorol.

Dywedodd Dr Pip Nicholas-Davies, Cydlynnydd Prosiect BeefQ ym Mhrifysgol Aberystwyth, "Y Defnyddwyr sy'n gyrru gwerth drwy'r gadwyn gyflenwi cig eidion ac mae cysondeb eu profiadau ansawdd bwyta cig eidion a'u gwerth am arian yn dylanwadu ar eu parodrwydd i dalu. Mae'n gwneud synnwyr felly ein bod ni'n defnyddio defnyddwyr ar gyfer asesu ansawdd bwyta cig."

Yn ddiweddar, cynhaliwyd dau ddigwyddiad ym Mhrifysgol Aberystwyth gan ddenu ystod eang o ddefnyddwyr, gan gynnwys myfyrwyr o IBERS, a oedd nid yn unig yn samplu cig eidion ond hefyd yn helpu i redeg y digwyddiadau.

I ddarganfod mwy ewch i: www.beefq.wales
Neu dilynwch @BeefQWales ar Twitter



Myfyrwyr amaeth yn helpu yn sesiwn blasu BeefQ ym Mhrifysgol Aberystwyth



Myfyrwraig IBERS yn ennill cystadleuaeth Stocmon Iau y Flwyddyn NFYFC 2019

Myfyrwraig BSc Amaethyddiaeth Ffion Havard yw enillydd Stocmon Ifanc y flwyddyn Ffederasiwn Cenedlaethol y Ffermwyr Ifanc 2019.

Enillodd Ffion Havard, myfyrwraig BSc Amaethyddiaeth yn ei thrydedd flwyddyn yma yn IBERS, deitl Stocmon Ifanc y Flwyddyn Ffederasiwn Cenedlaethol y Ffermwyr Ifanc. Mae Ffion yn aelod o CFFI Sennybridge, Brycheiniog, ac mae wedi cyrraedd y gystadleuaeth genedlaethol ddwywaith o'r blaen.

Ar y diwrnod, enillodd Ffion dair o'r cystadlaethau; hi ddaeth gyntaf yn rowndiau moch, defaid a llaeth y gystadleuaeth cyn ennill y teitl stocmon ifanc y flwyddyn.

"Doeddwn i ddim yn ei ddisgwyl, ond rydw i'n hapus iawn! Gyda beirniadu stoc, mae gennych chi ddyddiau da a diwrnodau gwael ac mae llawer ohono'n dibynnu ar sut

ydydych yn gosod yr anifeiliaid, ac nid bob tro rydych chi'n cytuno â'r beirniad. Roedd lwc ar fy ochr i fod wedi cytuno â gosodiadau'r beirniad ym mhob un o'r pedair cylch - yn sicr yn achlysur prin i mi," meddai Ffion.

Myfyrwyr Addysg Bellach yn ymweld â IBERS

Ym mis Tachwedd gwnaethom groesawu myfyrwyr Addysg Bellach o bob rhan o Gymru i Brifysgol Aberystwyth ar gyfer cwrs blasu deuddydd i ddysgu am ein gwaith ar Ffermio Da Byw Manwl Gywir fel rhan o'r prosiect PreciseAg.

Mynychodd myfyrwyr o Goleg Cambria Llysfasi, Coleg Meirion-Dwyfor Glynllifon, Coleg Gwent, Coleg y Drenwydd, a Choleg Sir Gar.

Yn ystod y digwyddiad, cafodd myfyrwyr gyfle i ddysgu am y gwaith ar Ffermio Da Byw Manwl Gywir yma ym Mhrifysgol Aberystwyth, gan gynnwys arddangosiad o dechnoleg amaeth fanwl fel cyflymromedrau a GPS a chyfle i brosesu a dadansoddi'r data o'r technolegau hyn. Cafodd myfyrwyr flas ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar reoli llyngyr yr afu yn yr amgylchedd yn y labordy, a chawsant gyfle i ddysgu am y datblygiadau sy'n digwydd ar Ffermydd y Brifysgol.



Gallwch ein dilyn ymlaen
Twitter @IBERSagri